OCR
RECOGNISING ACHIEVEMENT

Chief Examiner's Report

Prosesu Geiriau (Lefel 2) - 03948
Gwanwyn 2009

Llwyddodd pob ymgeisydd i gwblhau'r papur arholiad. Roedd y safon yn dda gydag ôl ymgeiswyr yn prawf-ddarllen eu gwaith yn ofalus. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio.

***Dogfen 1*:** Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda ar y cyfan. Llwyddodd pob ymgeisydd i newid yr ymyl chwith a'r ymyl uchaf yn gywir ac i ddefnyddio unioni llawn. Llwyddodd pawb i gopïo a symud testun yn ôl y cyfarwyddiadau. Llwyddodd pob ymgeisydd i fewnleoli'r paragraff ac i newid i ofod sengl pan oedd angen gwneud hynny. Fodd bynnag, ni lwyddodd ambell ymgeisydd i roi'r troedyn ar yr ymyl dde (2.3) ac ni lwyddodd pob ymgeisydd i gychwyn paragraff newydd yn ôl yr arwydd cywiro (2.3). Methodd un ymgeisydd â ffitio'r gwaith ar y tudalennau yn ôl y cyfarwyddyd – nid oherwydd iddo fethu â chynnwys toriad tudalen ond oherwydd iddo ganiatáu gormod o linellau gwag rhwng un pennawd a'r paragraff dilynol. Cosbwyd hyn o dan 4I felly. Llwyddodd pawb i rifo'r tudalennau yn ôl y cyfarwyddyd ac i newid un gair i un arall trwy gydol y ddogfen. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio yn y ddogfen hon.

***Dogfen 2*:** Cwblhawyd y ddogfen hon yn arbennig o dda. Llwyddodd pob ymgeisydd i ganoli'r pennawd ac i ad-drefnu'r rhestr yn nhrefn y wyddor. Bu pawb yn llwyddiannus wrth fewnosod y llun a newid ei faint yn ôl y gofyn. Newidiwyd maint y ffont a thanlinellwyd yn gywir. Methodd ambell ymgeisydd ag argraffu un copi tirlun (4H). Cosbwyd gwallau teipio yn bennaf yn y ddogfen hon felly.

***Dogfen 3*:** Fe wnaeth pob ymgeisydd newid y drefn yn y tabl yn ôl y gofyn. Defnyddiodd pawb y ffont gywir a gadawyd gofod fertigol yn gywir bob tro. Fodd bynnag, fe gosbwyd ambell ymgeisydd am beidio â theipio penawdau'r colofnau yn union fel ag yr oeddent yn ymddangos yn y papur arholiad (2.3). Methodd ambell ymgeisydd gyfuno'r celloedd hefyd fel bod penawdau'r adrannau yn ymestyn dros ddwy golofn (2.3). Methodd ambell ymgeisydd â diffodd y llinellau o gwmpas y tabl (2.3). Llwyddodd pob ymgeisydd i roi'r pris isaf yn gyntaf.

***Dogfen 4*:** Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda iawn. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio a methodd ambell ymgeisydd rifo ail dudalen y ddogfen (2.3). Llwyddodd pawb i ddefnyddio'r pennawd a'r ffont gywir a llwyddodd pawb i gynhyrchu'r copïau ychwanegol.

All candidates succeeded in completing the examination paper. The standard was good with evidence of candidates proofreading their work carefully. Penalties were incurred mostly for typing errors.

***Document 1*:** On the whole, this document was completed well. All candidates changed the left and top margins correctly and used full justification. All candidates managed to carry out the copy and move functions correctly according to the instructions. All candidates managed to inset the paragraph and to change to single line spacing when instructed to do so.

However, some candidates did not succeed in placing the footer on the right (2.3) and not all candidates managed to start a new paragraph according to the correction sign (2.3). Some candidates did not manage to fit the work onto the pages according to the instructions – not because a page break had not been inserted, but because they had allowed more space between a heading and its paragraph and this pushed the work onto the next page. This was penalised under 4I therefore. All candidates succeeded in numbering the pages according to the instruction and to change one word to another throughout the document. On the whole, penalties were incurred to typing errors in this document.

***Document 2*:** This document was completed very well. All candidates managed to successfully centre the heading and to sort the list into alphabetical order. All candidates successfully inserted the picture and re-sized it according to the instructions. The font size was changed correctly and underlining applied according to the document requirements. Some candidates failed to use landscape when printing (4H). Typing errors again therefore were mainly penalised in this document.

***Document 3*:** All candidates managed to modify the layout as requested in the table. All candidates used the correct font and allowed the correct vertical space requested. However, some candidates were penalised for not typing the column headings exactly as laid out in the draft (2.3). Some candidates failed to merge cells so that the section headings extended across the columns (2.3), again as drafted. Some candidates failed to remove the gridlines (2.3). All candidates completed the sort successfully.

***Document 4*:** This document was completed very well. Penalties were incurred mainly for typing errors and a few candidates failed to number the second page (2.3). All managed to use the correct letterhead and font and all candidates successfully generated the extra copies.